




Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru Cam 4, Hydref 2019 – Crynodeb

Beth yw'r Baromedr Twristiaeth?

Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â thymor yr hydref 2019.

Mae cwmni Strategic Research and Insight, asiantaeth ymchwil annibynnol o Gaerdydd, wedi cyflawni 820 cyfweiliad telefon gyda busnesau twristiaeth yn y sectorau canlynol: llety â gwasanaeth, hunanddarpar, safleoedd carafanau a gwerysyla, hosteli, atyniadau, darparwyr gweithgareddau a bwytai, tafarnau a chaffis.




Tymor cymysg i'r diwydiant

Mae dros chwarter (27%) y busnesau wedi cynyddu nifer eu hymwelwyr yr hydref hwn, ond mae'r un gyfran wedi gweld gostyngiad. Ymysg y rheiny a nododd gynnydd mewn ymwelwyr, roedd oddeutu chwarter (23%) yn nodi 'marchnata eu hunain' fel rheswm, ac roedd un o bob pump (20%) yn nodi 'busnes dychwel'.

Ymysg y rheiny a nododd ostyngiad, y ddau brif reswm am fod yn dawelach oedd y tywydd (27%) ac 'ansicrwydd ynghylch Brexit' (22%). Fodd bynnag, mae 14% o weithredwyr sydd wedi bod yn brysurach yn nodi 'mwy o Brydeinwyr yn aros yn y DU' fel rheswm, ac mae rhai ohonynt yn cysylltu hwn ag ansicrwydd ynghylch Brexit, sy'n rhwystro pobl ar eu gwyliau rhag mynd tramor.


Mae canlyniadau'n gyson yn ôl sector

Caiff y cyfnod cymysg a brofwyd gan y diwydiant yn gyffredinol ei adlewyrchu ar draws pob sector – nid yw'r gwahaniaethau rhyngddynt yn arwyddocaol.



Canolbarth a De-orllewin Cymru yn perfformio'n well, ond gostyngiad i Dde-ddwyrain Cymru

Mae Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi perfformio'n gadarnhaol at ei gilydd. Ar y llaw arall, mae De-ddwyrain Cymru wedi gweld oddeutu dau o bob pum busnes (39%) yn derbyn llai o ymwelwyr – nid yw nifer ohonynt (36%) yn gwybod y rheswm dros fod yn dawelach.



Mae'r lefelau hyder yn nodweddiadol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn

Er gwaethaf cyfnod cymysg yn yr hydref a llawer o ansicrwydd yn y DU ar hyn o bryd, mae'r hyder ar gyfer 2020 yn rhesymol. Mae oddeutu tri o bob deg busnes (29%) yn 'hyderus iawn' ynglŷn â 2020, ac mae oddeutu hanner (49%) yn 'weddol hyderus'. Mae hyder yn y diwydiant twristiaeth yn dymhorol, ac mae'r canlyniad hwn yn nodweddiadol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn.

Adroddiad ymchwil llawn: Lydall, A. (2019). Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru – Cam 4, Hydref 2019.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 61/2019

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-cam-4-2019>

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad

Croeso Cymru

Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

Canolfan QED, Ystad Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83933-501-3